# Hysbysiad Preifatrwydd Cludwyr Gwastraff

Mae Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR) yr UE yn cynnwys rheolau ynghylch rhoi gwybodaeth am breifatrwydd i unigolion yn Erthyglau 12, 13 a 14. Mae'r rhain yn fwy manwl a phenodol nag yn y Ddeddf Diogelu Data ac maent yn rhoi pwyslais ar wneud hysbysiadau preifatrwydd yn fwy tryloyw a hygyrch.

Rhaid darparu hysbysiad preifatrwydd i'r unigolyn ar yr adeg y byddwn yn casglu ei ddata personol neu pan fydd yn darparu'r data hynny i chi neu i CNC. Mae'r GDPR yn datgan bod rhaid i'r wybodaeth yr ydych yn ei darparu i unigolion ynglŷn â'r modd yr ydych yn prosesu eu data personol fod:

- yn gryno, yn dryloyw, yn ddealladwy, ac yn hawdd cael gafael arni;
- wedi'i hysgrifennu mewn iaith glir a phlaen, yn arbennig os yw wedi ei chyfeirio at blentyn; ac
- yn ddi-dâl.

## Hunaniaeth a manylion cyswllt y Rheolydd Data

Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) yw'r Rheolydd Data ac mae wedi ymrwymo i ddiogelu hawliau unigolion yn unol â'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR).

## Manylion cyswllt y Swyddog Diogelu Data

Mae gan Cyfoeth Naturiol Cymru Swyddog Diogelu Data sydd ar gael drwy: dataprotection@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk neu 0300 065 3000.

## Pa wybodaeth yr ydym yn ei chasglu amdanoch chi?

Rydym yn casglu data personol gennych chi fel y gallwn eich cofrestru yn gludwr/brocer/deliwr gwastraff ac i ddarparu Cofrestr Gyhoeddus o gludwyr/broceriaid/delwyr gwastraff.

Mae hyn yn cynnwys:

- Manylion cofrestru presennol (os yw'n berthnasol)
- Yn achos unigolion a phartneriaethau – eich enw(au), dyddiad geni, cyfeiriad, manylion cyswllt (rhif ffôn/ffacs, rhif ffôn symudol, a chyfeiriad e-bost)
- Yn achos Cwmnïau – Enw ac enwau blaenorol y Cwmni, cyfeiriad cofrestredig y swyddfa, manylion cyswllt y Cwmni, manylion swyddog y Cwmni yn achos cyfarwyddwyr ac ysgrifennydd y Cwmni, gan gynnwys swydd, teitl, enw a dyddiad geni.
- Yn achos Cyrff Cyhoeddus – enw, y math o gorff, cyfeiriad, manylion cyswllt, teitl y Prif Weithredwr, enw a dyddiad geni.
- Yn achos pob ymgeisydd – manylion cyswllt, swydd, teitl, enw'r sefydliad, cyfeiriad.
- Yn achos pob math o ymgeisydd – manylion euogfarnau perthnasol, gan gynnwys teitl, enw'r troseddwr, dyddiad geni, swydd, enw'r llys, y drosedd, y gosb a osodwyd.

- Yn achos ceisiadau haen uwch y codir ffi amdanynt, bydd arnom angen eich manylion talu.

### Sut y defnyddir eich gwybodaeth?

Defnyddir eich data i benderfynu ynglŷn â'ch cais i ddod yn gludwr/brocer/deliwr gwastraff cofrestredig ac i'w brosesu; ac, os yw'n ofynnol, i gysylltu â chi ynghylch materion sy'n ymwneud â'ch gweithgarwch yn gludwr/brocer/deliwr gwastraff.

Mae rhywfaint o'r wybodaeth a ddarperir yn cael ei defnyddio hefyd i hysbysu'r cyhoedd am eich cofrestriad drwy gynnwys manylion penodol ar ein cofrestr gyhoeddus o gludwyr, broceriaid a delwyr gwastraff fel y gall y cyhoedd wirio bod eich cofrestriad yn ddilys.

### Ar ba sail gyfreithiol y byddwn yn prosesu eich data personol?

Mae prosesu'n angenrheidiol er mwyn cydymffurfio â rhwymedigaeth gyfreithiol sydd ar CNC i ddarparu dull o gofrestru cludwyr/broceriaid/delwyr gwastraff ac i ddarparu cofrestr gyhoeddus.

### Pwy sy'n cael eich gwybodaeth?

Ein Canolfan Gyswllt i Gwsmeriaid a'n hadran Gyllid, sy'n prosesu'ch cais ac sy'n penderfynu yn ei gylch. Gall y wybodaeth hefyd gael ei defnyddio gan ein hadrannau Gweithrediadau a Thystiolaeth, Polisi a Thrwyddedu, sy'n ymgymryd â gweithgareddau rheoleiddio sy'n ymwneud â chludwyr/broceriaid/delwyr gwastraff.

### Trosglwyddo i drydydd gwledydd a'r dulliau diogelu sydd ar waith

Ni fydd eich data'n cael eu trosglwyddo i drydydd gwledydd.

### Pa mor hir y bydd eich gwybodaeth yn cael ei dal?

Bydd y data personol yn cael eu dal yn unol ag amserlen gadw CNC (heb fod yn hwy na 7 mlynedd).

### Beth yw'r hawliau unigol?

Mae gennych hawl i gael mynediad at eich gwybodaeth bersonol, i wrthwynebu'r prosesu o'ch gwybodaeth bersonol, ac i gywiro, dileu, cyfyngu, a chludo eich gwybodaeth bersonol. Ewch i'n tudalennau gwe ynghylch diogelu data i gael gwybodaeth bellach ynglŷn â'ch hawliau.

Dylai unrhyw gais neu wrthwynebiad gael ei gyflwyno'n ysgrifenedig, a hynny i Swyddog Diogelu Data CNC: -
E-bost – dataprotection@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk

Swyddog Diogelu Data
Cyfoeth Naturiol Cymru
Maes y Ffynnon
Ffordd Penrhos
Bangor
Gwynedd
LL57 2DW

### Diogelwch eich data

Bydd eich data'n cael eu cadw ar systemau TG a ddiogelir â chyfrinair. Rydym yn

defnyddio Microsoft Office 365 a Microsoft Azure i storio ein dogfennaeth fusnes swyddogol. Mae'r ddwy system hyn yn bodloni achrediad "SWYDDOGOL" Llywodraeth y DU. Bydd yr HOLL wasanaethau, gweithrediadau a busnes sector cyhoeddus arferol a'r data sy'n ymwneud â nhw yn cael eu trin yn SWYDDOGOL. Dyma enghreifftiau o fusnes SWYDDOGOL:

- Busnes pob dydd llywodraeth, darparu gwasanaethau, a chyllid cyhoeddus.
- Gweithgareddau gorfodi, cyfiawnder troseddol, a diogelwch y cyhoedd.
- Gwybodaeth bersonol a ddiogelir gan ddeddfwriaeth Diogelu Data (sy'n cynnwys, er enghraifft, data fel cofnodion iechyd).

## Sut i gwyno

Os ydych yn anfodlon ar y ffordd y mae eich data personol wedi'u prosesu, gallwch gysylltu â Swyddog Diogelu Data CNC yn y lle cyntaf gan ddefnyddio'r manylion cyswllt uchod.

Os byddwch yn dal yn anfodlon, mae gennych hawl i gyflwyno cais uniongyrchol i'r Comisiynydd Gwybodaeth am benderfyniad, a hynny i'r cyfeiriad a ganlyn: -

Information Commissioner's Office,
Wycliffe House,
Water Lane,
Wilmslow,
Cheshire,
SK9 5AF
www.ico.org.uk